# Astudiaeth Achos Academi Cyflogadwyedd Abertawe (ACA)

Prifysgol Abertawe
Swansea University

Academi Cyflogadwyedd Abertawe
Swansea Employability Academy

## Benjamin Liebenberg

**Cwrs: LLM Ymarfer y Gyfraith a Drafftio Uwch**

**Blwyddyn Graddio: 2022**



Tra'n astudio ar gyfer LLM Ymarfer y Gyfraith a Drafftio Uwch, aeth Benjamin, o Dde Affrica yn wreiddiol, ati i ymgysylltu â'r cymorth gyrfaoedd a chyflogadwyedd sydd ar gael gan ACA yn ystod ei flwyddyn olaf. Trefnodd Benjamin apwyntiad un-i-un gydag Ymgynghorydd Gyrfaoedd er mwyn cael gwell dealltwriaeth o gael gwaith ym maes ymarfer cyfreithiol.

O safbwynt y gefnogaeth sydd ar gael gan ACA, dywedodd Benjamin:

" Defnyddiais y gwasanaeth gyrfa 1:1 i gael awgrymiadau a chyfarwyddiadau amhrisiadwy ar gyfer ysgrifennu CV, creu cysylltiadau cymdeithasol a chyrsiau i'w hystyried er mwyn ychwanegu ymhellach at fy resumé proffesiynol.

Rhoddodd fy ymgynghorydd, Paula, adnoddau addysgiadol hanfodol yr oedd eu hangen arnaf i fod yn llwyddiannus wrth gyflwyno cais am rolau cyfreithiol. Gyda'r help yma rwyf wedi llwyddo i sicrhau gwaith fel gweithiwr paragyfreithiol... Yn y pen draw, bydd hyn yn cyfrannu'n aruthrol at ddatblygu fy sgiliau cyfreithiol mewn lleoliad ymarferol.

Rwy'n argymell yn fawr i fyfyrwyr eraill ddefnyddio gwasanaethau ACA, maent yn helpu i bontio'r bwlch rhwng astudio a chyflogaeth, sy'n golygu ei bod hi'n broses frawychus i ddechrau, ond yn gyffrous ac addysgiadol.

O ganlyniad, rwyf wedi cael cynnig contract hyfforddi mewn cyfraith fasnachol gyda Capital Law ac rwy'n edrych ymlaen at ddechrau fy ngyrfa gyda nhw. "

**I gael rhagor o wybodaeth am y cymorth gyrfaoedd a chyflogadwyedd sydd ar gael i fyfyrwyr a graddedigion Prifysgol Abertawe, ewch i'n tudalen we:**
**myuni.swansea.ac.uk/cy/gyrfaoedd**